Cylchlythyr Y Sied

Y Sied The Shed
CAFFI . TREFTADAETH . SEICLO / CAFÉ . HERITAGE . CYCLING

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

GRŴP GWEITHREDU TRIGOLION GALLT MELYD

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Diweddariad

Derbyniodd y Grŵp Llywio newyddion gwych ychydig wythnosau yn ôl pan gyhoeddodd y Loteri eu bod yn dyfarnu £1.1 miliwn i adnewyddu hen sied nwyddau yng Ngallt Melyd. Felly rydym bron yna, a gobeithio yn ystod y mis nesaf bydd gennym newyddion o'r holl geisiadau cyllid cyfatebol rydym yn aros amdanynt.

Mae'r prosiect yn cynnwys adnewyddu'r sied i fod yn ased cymunedol bywiog a chynaliadwy. Y nod yw datblygu sied i fod yn ganolfan sy'n cynnwys treftadaeth gyfoethog y pentref ac mae'n annog ymwelwyr i'r ardal. Bydd y Sied yn cynnwys caffi, cegin, gweithdai / mannau busnes masnachol ar gyfer crefftwyr lleol, cyfleuster llogi beiciau, siop gymunedol, a mannau treftadaeth mewn dau dwnnel amser a fydd yn cael eu gwneud yn arbennig.

Yn ogystal â'r arian cyfatebol, un o'r amodau o sicrhau'r Gronfa Loteri yw bod y gymuned a thrigolion lleol Gallt Melyd yn cyfrannu drwy godi arian tuag at y cyfanswm. Mae'r Pwyllgor Codi Arian a Digwyddiadau wedi gosod targed o £6000 ac wedi bod yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau codi arian er mwyn ceisio cyrraedd y targed hwn. Ewch i'r adran Codi Arian a Digwyddiadau i weld sut y gallwch chi gymryd rhan.

Codi Arian a Digwyddiadau

Bore Coffi

Sioe Flodau Prestatyn

Clwb Rhedeg Prestatyn Rhedeg Everest



Prynu Llechen

Ffurfiwyd Pwyllgor Codi Arian a Digwyddiadau ar ôl y diwrnod agored yn ôl ym mis Ionawr ac mae'r grŵp yn cyfarfod bob yn ail fis i drafod a threfnu digwyddiadau codi arian yn y gymuned i godi arian ar gyfer y prosiect. Mae'n wych bod aelodau o'r gymuned yn gweithio gyda'i gilydd i godi arian, ac rydym yn gobeithio cyrraedd ein targed dros y 18 mis nesaf. Mae hyd at £1362 wedi cael ei godi hyd yn hyn ond ar ôl y newyddion gwych gan y Loteri mae'r grŵp wedi ennill momentwm!! Gweler uchod rai o'r ffyrdd mae'r grŵp wedi bod yn codi arian hyd yn hyn.

Festive Prestatyn

Bydd gennym stondin yn 'Festive Prestatyn', sef amser troi'r goleuadau Nadolig ymlaen ar y 3ydd o Ragfyr rhwng 11am - 6pm ym Maes Parcio 'CookHouse', Stryd Fawr, Prestatyn. Bydd cyfle i 'Brynu Llechen' am £1 a helpu i godi arian i gefnogi datblygiad Y Sied. Bydd ein stondin yn cynnwys tombola, melysion, a llawer mwy.

Cymryd Rhan

Cysylltwch â Hawys Roberts, Swyddog Cymuned Grŵp Cynefin ar 0300 111 2122 os hoffech ein helpu gyda chodi arian tuag at y prosiect - rydym yn awyddus iawn i gael mwy o wirfoddolwyr i gymryd rhan! Fel arall, gallwch ein cefnogi gan fynychu a chymryd rhan yn ein digwyddiadau codi arian a drefnir.
Os gwyddoch am unrhyw grwpiau, busnesau neu unigolion sydd â diddordeb mewn defnyddio'r Sied neu os oes gennych unrhyw syniadau, awgrymiadau neu os hoffech ddysgu mwy am y prosiect, yna mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Mentrau Cymunedol yn Ninbych ar 0300 111 2122 neu drwy e-bostio mentraucymunedol@grwpcynefin.org

@MeldenShed
@MeldenShed

Hoffwch a dilynwch ni am ddiweddariadau am gynnydd Y Sied a digwyddiadau codi arian!

The Shed Newsletter

Y Sied The Shed
CAFFI . TREFTADAETH . SEICLO / CAFÉ . HERITAGE . CYCLING

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

MELIDEN RESIDENTS ACTION GROUP

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Update

The Steering Group received fantastic news a few weeks ago when the Lottery announced that they were awarding £1.1 million to renovate the old disused Goods Shed in Meliden. So we are nearly there and hopefully over the next month or so we will have news from all outstanding match funding applications.

The project involves renovating the shed into a vibrant and sustainable community asset. The aim is to develop the shed into a centre which incorporates the rich heritage of the village and encourages visitors to the area. The Shed will host a cafe, commercial kitchen, workshops/ business spaces for local artisans, bike hire facility, community shop, and heritage spaces in two specially made time tunnels.

As well as the match funding, one of the conditions of securing the lottery fund is that the local community and residents of Meliden contribute through fundraising towards the total amount. The Events & Fundraising Group have set a target of £6000 and have been arranging an array of fundraising activities to try and achieve this target. See how you can get involved in the Events and Fundraising section.

Events and Fundraising

Coffee Morning

Prestatyn Flower Show

Prestatyn Running Club Running Everest



Buy a Slate

An Events and Fundraising Committee was formed after the open day back in January and the group meet every other month to discuss, arrange and organise fundraising events in the community to raise money for the project. It is great that members of the community are working together to fundraise, and we hope to reach our target over the next 18 months. To date £1362 has been raised but after the fantastic news from the Lottery the group have gathered momentum!! Above are some of the ways the group have been fundraising so far.

Festive Prestatyn

We will have a stall at 'Festive Prestatyn' Christmas Lights switch on on the 3rd of December between 11am - 6pm at the Cookhouse Car Park, High Street, Prestatyn. There will be a chance to 'Buy a Slate' for £1 and help fundraise to support The Shed's development. Our stall will have a tombola, sweets, and much more to enjoy.

Get Involved

If anyone would like to help with the fundraising in any way, please contact Hawys Roberts, Community Officer from Grŵp Cynefin on 0300 111 2122 - we are very eager for more volunteers to get involved. Alternatively, you can support us by simply attending and taking part in our organised fundraising events.
If you know of any groups, businesses or individuals interested in using The Shed or have any thoughts, ideas and suggestions or would just like to learn more about the project then please do get in touch by contacting the Community Initiatives Team in Denbigh on 0300 111 2122 or by e-mailing communityinitiatives@grwpcynefin.org

@MelidenShed
@MelidenShed

Please like and follow for updates on The Shed's progress and fundraising events!